Adroddiad Cyfarfod 08:04:15 Perlysiau Llesol

Wedi canu Cân y Mudiad gyda Glenys Griffiths yn cyfeilio-diolchodd Mair Price y llywydd i Bet ac Eirlys, Anwylyd ac Edwina am eu caredigrwydd yn cyfrannu at ein dathliadau deugain oed. Cydymdeimlwyd gyda Bet yn ei phrofedigaeth diweddar. Cawsom ein hatgoffa fod y dyddiadaur ar gael i geisio ennill pryd o fwyd yn y Gardd Fôn a bydd cyfle olaf i gyfrannu'r Ategolion yng nghyfarfod mis Mai. Cytunwyd i anfon enw Mary Roberts, Llanrug ar gyfer yr is-drysorydd Cenedlaethol. Apeliwyd am wirfoddolwyr ar stondin y Galon yn Eisteddfod Maldwyn, pabell Merched y Wawr yn Sioe Llanelwedd a chynllun BODO – i ddarllen stori yn y Cylch Meithrin - cysylltwch â Rita os oes diddordeb.Bydd cyfle eto ym mis Mai i archebu cardiau Nadolig a dyddiaduron.

Ein gwestai am y noson oedd yr amryddawn Mrs Rhiannon Parry, cyn Olygydd y Wawr. Wrth ei chroesawu atom, manteisiodd y llywydd ar y cyfle i estyn cydymdeimlad y gangen at Rhiannon a'i gŵr yn eu profedigaeth ddiweddar o golli eu mab. Dewis bwnc Rhiannon ar y noson oedd sgwrs hynod ddadlenol am y gwaith wnaeth William Salesbury (1520-1584) i gofnodi rhinweddau llysiau at iechyd. Wrth gwrs, fe ŵyr pawb am ei waith meistrolgar yn cyfieithu'r ysgrythurau i'r Gymraeg a chyhoeddi'r Llyfr Gweddi Cyffredin a'r Testament Newydd yn 1567, ond ychydig a ŵyr iddo hefyd adael llawysgrif yn cofnodi Llysiau Meddyginaethol. Dywedodd Rhiannon bod mawr ddiolch i Iwan Rh Edgar am olygu a sicrhau cyhoeddi Llysieulyfr Salesbury yn 1997.Gan ddangos engreifftiau o'r perlysiau soniodd Rhiannon yn benodol am y wermod wen, persli,teim a saets. Dyfynnodd yn helaeth, a doniol iawn ar brydiau, o waith Salesbury oedd yn nodi'n fanwl sut y gellid, wrth eu defnyddio yn aml ac yn ddoeth, gael gwellhad o amryw anhwylderau'r corff yn arbennig salwch y stumog a'r cylla. Hefyd fel petae i danlinellu ymhellach bwysigrwydd y llysiau hyn at iechyd, dewisodd Rhiannon ddarnau o farddoniaeth o waith Ann Jenkins Aberystwyth oedd yn ehangu ar y budd a geid wrth ddefnyddio'r planhigion dan sylw. Yn ogystal â siarad yn hynod ddifyr am y Llysiau Llesol,danghosodd ein gwraig wadd amryddawn, ddewis perthnasol o'i gwaith llaw cywrain, y cwbl ar y thema o lysiau a phlanhigion. Diolchodd Mrs Gwyneth Jones yn gynnes iawn i Rhiannon am noson addysgiadol a difyr tu hwnt ac am draddodi'r sgwrs yn

ei ffordd ddi-hafal ei hun.Eirlys Sharpe oedd wedi trefnu'r baned,ynghyd â chyfraniadau gan Liz Evans ac Edwina. Eryl a Mair Price enillodd y rafflau.

Bydd ein cyfarfod nesaf 13 o Fai pan ddisgwylir aelod o Sefydliad y Galon i'n hannerch (yr oedd yn gais gan ein Llywydd Cenedlaethol i gefnogi'r sefydliad pwysig yma).

Mynychodd pedair aelod sef Mair Price, Anne Elis, Gwyneth Jones a Rita Williams ginio'r Llywydd Cenedlaethol yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis. Cafwyd diwrnod arbennig o lwyddiannus gydag adloniant gan Steffan Rhys Hughes a Ceri Hâf Roberts.

Ceir lluniau o'r gangen ar wefan www.mywbethel.org